

# Diwedd Blwyddyn

## Darllen: Salm 31:15

Cyfnod rhwng dau amser ydi diwedd blwyddyn. Nid ydi rhialtwech y Nadolig wedi diflannu, mae'r cardiau a'r addurniadau yn dal i fyny ac mae'n dal yn wyliau. Mae'r plant gartref o'r ysgol, a'r siopau'n cynnig eu bargeinion. Felly, ar un llaw mae'n gyfnod o edrych yn ôl, ac ar y llaw arall mae'n gyfnod o edrych ymlaen at y flwyddyn newydd. Mae'r duw Ianus yn ein hatgoffa o ddiwedd a dechrau blwyddyn. Edrych yn ôl ac edrych ymlaen. Mae diwedd un peth yn ddieithriad yn arwyddo dechrau rhywbeth arall.

Dyma'r adeg yr ydyn ni fwyaf ymwybodol o dreigl amser. Rydyn ni'n edrych yn ôl ar yr hen flwyddyn gan hel atgofion a gofyn sut flwyddyn fu hi. Blwyddyn o uchelfannau a dyffrynnoedd digon tywyll, fel pob blwyddyn aeth heibio. Ond mae'n rhaid cofio, beth bynnag oedd ein sefyllfa a pha brofiadau bynnag a gawsom, ei bod yn bur debyg i ni deimlo llaw Duw yn ein cynnal ar y daith. Ac wrth edrych yn ôl ar y flwyddyn aeth heibio byddwn yn sylweddoli ein bod yn mynd yn hŷn, a bydd rhaid ychwanegu 'un arall' at ein hoedran. Sylweddolwn mor fyr ydi bywyd a bod ein blynyddoedd yn hedfan heibio. Onid oedd y Salmydd wedi sylweddoli hyn ganrifoedd yn ôl wrth iddo ddweud, 'Deng mlynedd a thrigain yw blynyddoedd ein heinioes, neu efallai bedwar ugain trwy gryfder' (Salm 90:10)? Ar y deial haul o flaen prif fynedfa Prifysgol Bangor, ceir y geiriau, 'Hed Amser, meddi. Na! Erys Amser; Dyn â'. A pheth rhyfedd yw 'amser'. I rai, mae amser yn ormes. Mae'n rhaid gofalu ein bod yn cadw at amser, ac mae'r cloc yn aml yn llywio'n bywydau; 'Mae'n rhaid i mi fynd neu mi fydda i'n hwyr, fedrai ddim dioddef bod yn hwyr yn unman'. Ond i eraill, dydi amser yn cyfrif dim. Maen nhw'n hwyr ym mhob man, ac fel y dywedodd rhywun, 'Mi fydd hwn yn hwyr yn ei gynhebrwng ei hun!' Felly, ar ddiwedd blwyddyn rydyn ni rhwng dau amser – un yn edrych yn ôl a'r llall yn edrych ymlaen i'r anwybod.

Ond mae'r Beibl am inni dderbyn hyn fel rhywbeth cwbl naturiol gan ddysgu oddi wrth brofiadau'r hen flwyddyn ac elwa ar y profiadau hynny. Neges y Salmydd yw: 'Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau inni gael calon ddoeth' (Salm 90:12). Mae'r Beibl yn ein hannog, nid i eistedd yn ôl yn oddefol a derbyn baich amser ond yn hytrach i ymwroli a gwrthod gadael i amser ein gormesu a'n llethu. Meddai Paul wrth Gristnogion Effesus, 'Daliwch ar eich cyfle, oherwydd y mae'r dyddiau'n ddrwg' (Effesiaid 5:16), a'r un oedd ei neges i'r Colosiaid, 'daliwch ar eich cyfle' (Colosiaid 4:5). Hynny yw, deffrwch ac ymwrolwch. Dyma'r neges i Gristnogion ar ddiwedd blwyddyn wrth edrych ymlaen yn hyderus i'r flwyddyn newydd. Mae'r amser yn mynd heibio'n gyflym iawn, ac mae yna waith i'w wneud. Mae'n fater o frys mawr. Mae ateb Iesu i'r gŵr hwnnw oedd yn awyddus i'w ddilyn, ond oedd eisiau ffarwelio â'i deulu cyn cymryd y cam tyngedfennol hwnnw, yn glir, 'Nid yw'r sawl a osododd ei law ar yr aradr, ac sy'n edrych yn ôl, yn addas i deyrnas Dduw' (Luc 9:62).

### **Myfyrdod pellach:**

Sut y byddwch chi'n pwyso a mesur y flwyddyn aeth heibio?

Llaw ar yr aradr ac agor cwys newydd. Beth yw ystyr hyn wrth edrych ymlaen i'r flwyddyn newydd?